# Cyngor Cymuned **Ceulanamaesmawr** Community Council

**Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd**
**nos Lun 18 Mai 2026 am 7.45 p.m. yn Neuadd Goffa Tal-y-bont**

1. **Croeso'r Cadeirydd**

   **Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Enoc Jenkins (Cadeirydd), Nia Richards, Siôn Pennant Jones (Is-gadeirydd), Ellen ap Gwynn, Bleddyn Huws, Catrin Davies (Cynghorydd Sir), Elgan Evans, Nest Jenkins a Rhian Evans

   **Yn cofnodi:** Lynwen Rees Jones

   Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb gan ddiolch i'r Cyng. Ellen ap Gwynn am ei gwaith yn y Gadair dros y pedair blynedd ddiwethaf.

2. **Ymddiheuriadau**

   Y Cynghorwyr Mererid Watson ac Eryl Bray

3. **Datgan Buddiant Personol**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

4. **Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**
   - i) Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2026, yn gywir. Cynnig: Ellen ap Gwynn; Eilio: Catrin Davies

5. **Materion yn codi**
   - i) Materion a adroddwyd trwy Clic i'r Cyngor Sir: nid oedd unrhyw beth newydd i'w adrodd, ond nodwyd y canlynol:
     - a) Bod ffordd Cwm Tŷ Nant o Benpompren Geifr i Gapel Bethesda mewn cyflwr gwael.
     - b) Bod nifer o dyllau yn y ffordd rhwng Pensarn a Gwarcwm Uchaf.
     - c) Bod nifer o dyllau yn y ffordd o bentref Tal-y-bont hyd at Benffordd-las.
   - ii) Mynwent Nazareth: nodwyd bod wal y fynwent yn bochio mewn un man ac y byddai angen ei thrwsio rhwybryd yn y dyfodol. Roedd hefyd glaswellt, mieri a rhedyn yn tyfu yno y byddai angen eu tocio yn ystod misoedd yr haf. Nodwyd unwaith eto y byddai costau cynnal a chadw'r fynwent yn golygu na fyddai'r £10,000 yn para'n hir iawn. Byddai hyn yn golygu y byddai'r fynwent yn faich ariannol i'r Cyngor yn y dyfodol. Penderfynwyd ysgrifennu at y cyfreithiwr yn nodi na fyddai'r Cyngor yn barod i dderbyn cyfrifoldeb oni bai fod swm teg yn cael ei gynnig, yn enwedig o ystyried mai cyn-drigolion a thrigolion presennol Tal-y-bont a oedd wedi cyfrannu'r arian sydd yng nghronfa Capel Nazareth ar hyn o bryd.
   - iii) Torri glaswellt: roedd y Clerc wedi gofyn i Robert Griffiths wneud y toriad cyntaf yn y fynwent yn ddiweddarach yn y flwyddyn a pheidio â thorri'r blodau gwyllt ar y toriad cyntaf.
   - iv) Parc chwarae Bont-goch: roedd Dŵr Cymru wedi gwneud gwaith trwsio i'w eiddo ganol mis Ebrill. Nodwyd bod y tir yn sych erbyn hyn.
   - v) Roedd y coed ger Maes-y-felin wedi cael eu tocio. Diolchwyd i Eryl Bray am gysylltu â'r perchennog i drefnu hyn.
   - vi) Dyfynbrisiau ar gyfer parc chwarae Bont-goch: er bod y Clerc wedi holi am ddau bris arall, nid oedd wedi cael unrhyw ymateb. Nodwyd bod rhwng £2,000 a £3,000 wedi cael ei drosglwyddo i'r Cyngor ar gyfer gwaith cynnal a chadw pan agorwyd y parc, a nododd y Cyng. Siôn Pennant y dylai rhywfaint o hwn fod ar ôl o hyd. O ystyried sefyllfa llif arian presennol y Cyngor, trafodwyd a ddylid mynd ati i drwsio'r gât yn unig am y tro. Fodd bynnag, gan y byddai angen ymdrin â'r ffensys hefyd yn y pen draw, penderfynwyd trwsio'r cyfan a chynnig y gwaith i Bedwyr Siencyn ar yr amod bod digon o arian ar gael.

**6. Adran 6 – Bioamrywiaeth**

Yn ystod mis Mai, roedd y Cyng. Nia Richards wedi mynychu sesiwn hyfforddi a gynhaliwyd gan Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru ar brosiect sy'n cofnodi bioamrywiaeth mewn cymunedau, fesul cilometr sgwâr neu ardal benodol. Mae'r dull ardal-benodol yn addas iawn ar gyfer Cae Bach. Yn gyntaf trwy gynnal arolwg sylfaenol a monitro yn y dyfodol lle gellir cofnodi cynnydd mewn rhywogaethau a niferoedd. Roedd Sian Saunders, swyddog lleol Llywodraeth Cymru ar gyfer menter Caru Gwenyn, hefyd yn bresennol yn y sesiwn hyfforddi ac wedi cynnig gweithio gyda ni ar yr elfen bwysig hon o ailwampio Cae Bach. Mae Eryl a Nia'n gobeithio cwrdd â Sian yn y Cae Bach yn yr wythnosau nesaf i ddechrau cynllunio'r ffordd ymlaen a hefyd i ymweld â phrosiect tebyg yn Llanafan sydd newydd ennill statws Caru Gwenyn.

**7. Gohebiaeth**

Roedd y Clerc wedi anfon pob gohebiaeth electronig berthnasol ymlaen at y Cynghorwyr yn ystod y mis. Nodwyd y canlynol yn benodol:

i) Neges gan un o drigolion Tal-y-bont yn nodi bod plant yn chwarae yng nghae'r ysgol gyda'r nos ac yn dringo dros y ffens werdd i dir preifat i adfer peli, ac ati. Roedd yn poeni y gallai rhywun gael ei anafu. Nodwyd mai mater rhwng perchennog y tir a'r ysgol oedd hyn.

ii) Neges gan Rwydwaith Ceredigion yn cynnig ailddylunio'r wefan.

iii) Bu nifer o drigolion Tal-y-bont yn cwyno ei bod yn beryglus gyrru allan o Stryd y Capel pan fo ceir wedi parcio ar y gornel gyferbyn â'r siop. Nodwyd bod parcio ar y palmentydd yn broblem ar hyd y pentref, gan olygu bod yn rhaid cerdded ar y ffordd fawr yn aml. Awgrymwyd y dylid rhoi gwybod i'r heddlu ac i'r Cyngor Sir, gan anfon lluniau os yw hynny'n bosibl. Trafodwyd a fyddai'n bosibl gosod bolardiau fel rhwystr, ond nodwyd mai atal ceir rhag gyrru ar y palmant yw diben bolardiau, nid eu hatal rhag parcio yno. Penderfynwyd anfon llythyr at y swyddog priodol yn Asiantaeth y Priffyrdd.

iv) Neges e-bost gan un o drigolion Tal-y-bont yn nodi bod cerbydau'n goryrru trwy'r pentref gan ei gwneud yn beryglus i bobl groesi'r ffordd a chan ddifrodi ceir sydd wedi parcio. Roedd yn gofyn a oedd yna fesurau y gellid eu cymryd i'w harafu. Penderfynwyd anfon llythyr at y Prif Gwnstabl yn nodi'r pryderon. Trafodwyd y posibilrwydd o roi rhywbeth yn yr hysbysfyrddau yn gofyn i bobl gasglu tystiolaeth a'i hanfon at yr heddlu.

**8. Materion ariannol:**

i) Adroddiad ariannol: roedd y Clerc wedi dosbarthu manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ymlaen llaw ac wedi rhoi adroddiad yn y Cyfarfod Blynyddol. Roedd y sefyllfa ar 18.05.2026 fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Y cyfrif cyfredol | £1,019.53 |
| Y cyfrif cadw | £4,008.73 |
| Cyfrif y Tabernacl | £4,654.99 |
| Cyfrif Cae Bach | £30,391.65 |
| Arian mân | £58.29 |
| Cyfanswm | **£40,133.19** |

ii) Incwm ers y cyfarfod diwethaf:
Praesept a grant y fynwent – £13,471.67
Ad-daliad CES – £525 (yn cynnwys TAW)
Llog banc – £19.15

iii) Anfonebau i'w talu:
a) Nia Richards, costau Cwtsh Cynnes – £3.50

b) Ellen ap Gwynn, costau Cwtsh Cynnes – £12.60
Penderfynwyd yn unfrydol gymeradwyo'r taliadau uchod.

**9. Y Caeau Chwarae**

i) Ymgyrch Cae Bach: codwyd £200 yn y cwis a gynhaliwyd yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont, a chafwyd cyfraniad pellach o £25 gan un o blant y pentref a fu'n gwerthu losin. Roedd enillydd trydedd wobr Clwb 200 mis Ebrill wedi penderfynu cyfranu'r wobr o £10 i'r gronfa.

ii) Adroddiadau misol:
- Bont-goch: Roedd y cyfarpar i gyd yn ddiogel. Trafodwyd y gwaith cynnal a chadw yn mhwynt **5.vi)**.
- Cae Bach: roedd y corryn wedi rhydu a gallai rhywun rwygo dillad arno; roedd darnau metel peryglus yn dal i fod ar ffrâm yr hen wal ddringo; roedd y cerrig llamu'n llithrig yn y glaw; nid oedd y fainc picnic wedi cael ei drwsio. Penderfynwyd ceisio dod o hyd i rywun i wneud y gwaith uchod.

**10. Unrhyw Fater Arall**

i) Roedd y ffordd ger Eglwys Bont-goch yn dal i fod mewn cyflwr gwael.

ii) Roedd y bwlch a agorwyd yn sietyn Cae Sticil bellach wedi'i ledu i ffurfio mynediad sylweddol. Nodwyd nad oedd unrhyw hawl gwneud hyn ac y byddai'r Cyng. Catrin Davies yn rhoi gwybod i adran briodol y Cyngor Sir.

iii) Roedd rhywrai wedi bod yn cynnau tân ar ben bedd ym mynwent Bethel.

iv) Roedd yna si bod gan rywrai ddiddordeb mewn prynu mynwent y Tabernacl. Y Clerc i chwilio am y dogfennau trosglwyddo a cheisio darganfod pwy yw'r perchennog presennol.

**11. Dewis enillwyr y Clwb 200**

Defnyddiwyd ap cynhyrchu haprifau i ddewis enillwyr mis Mai fel a ganlyn:
1af – 82, Carwyn Evans (£50); 2il – 15, Sioned Morris (£20); 3edd – 70, Magw Ifan (£10)
Cymeradwywyd talu'r gwobrau o gronfa Cae Bach.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 p.m. ar 29 Mehefin 2026 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 p.m.